# Diwygio Cymhwyster CBAC Lefel 3 Sylfaen Celf a Dylunio - Cymerwch Ran

Rydym yn diwygio ein cymhwyster Lefel 3 Sylfaen Celf a Dylunio ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas, yn gyfoes ac yn adlewyrchu'r arfer da presennol o ran dylunio cymwysterau ac asesiadau.

Mae ein cymhwyster Lefel 3 Sylfaen Celf a Dylunio wedi'i anelu at ddysgwyr ôl-18 mewn colegau AB. Mae'n rhoi profiad trylwyr a chynhwysfawr o gelf, crefft, dylunio a chyfryngau i ddysgwyr sydd wedi'i seilio ar egwyddorion dadansoddol, arferion archwilio ac ymchwilio, ymchwil cyd-destunol a phrofiadau materol ac yn cefnogi dilyniant i addysg uwch a/neu hyfforddiant.

**Cymerwch ran**

Gallwch chi gymryd rhan yn y gwaith o ddiwygio ein cymhwyster Lefel 3 Sylfaen Celf a Dylunio mewn sawl ffordd:

**Grwpiau Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau**

Rydym yn chwilio am unigolion i ymuno â'n Grwpiau Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau i'n cynghori, ein hysbysu a'n herio wrth i ni symud drwy'r broses o ddatblygu cymwysterau.

Ein Grwpiau Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau sy'n:

- llywio cynllun amlinellol y cymhwyster, gan gynnwys strwythur y cymhwyster a'r dulliau asesu
- profi ein cynigion, drwy fod yn ffrind beirniadol ond cefnogol i sicrhau y bydd y cymhwyster yn bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid
- cyfrannu gyda meddylfryd sy'n cynnig datrysiadau.

Cynhelir ein Grwpiau Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau cyntaf ar ddiwedd mis Chwefror (dyddiad i'w gadarnhau). Bydd y cyfarfodydd hyn yn cynnig y cyfle i lywio cynnwys newydd a dulliau asesu arloesol ar gyfer y cymwysterau newydd.

Cofrestrwch eich diddordeb mewn ymuno â'n Grwpiau Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau drwy anfon e-bost at qualificationdevelopment@wjec.co.uk. Dywedwch wrthym (mewn llai na 300 o eiriau) rywfaint am eich sgiliau a'ch profiad a pham mae gennych chi ddiddordeb yn y cyfle hwn.

Dyddiad cau ar gyfer mynegi eich diddordeb: **6 Ionawr 2025**

**Ymunwch â'n Tîm Datblygu Cymwysterau**

Mae **awduron ac adolygwyr cymwysterau** yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu ein cymwysterau. Yn y rôl hon, gofynnir i chi wneud rhai neu bob un o'r canlynol:

- llunio cynnwys unedau ynghyd â sail resymegol dros yr hyn sydd wedi'i gynnwys sy'n bodloni gofynion y cymhwyster
- cynhyrchu asesiadau enghreifftiol (papurau cwestiynau/tasgau asesiadau di-arholiad a chynlluniau marcio) sy'n bodloni gofynion manyleb ac asesiadau'r cymhwyster
- adolygu cynnwys unedau/asesiadau enghreifftiol i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion manyleb ac asesiadau'r cymhwyster

- cyflwyno cynnwys unedau ac asesiadau yn y fformat gofynnol, o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt
- sicrhau bod cynnwys unedau ac asesiadau yn bodloni'r holl gyfarwyddiadau comisiynu, yn unol â'r hyn a gytunwyd â'r swyddog datblygu cymwysterau
- darparu cynnwys asesu ychwanegol yn ôl y gofyn, gan gynnwys ffynonellau dogfennau/delweddau a manylion caniatâd hawlfraint.
- mynychu diwrnodau panel adolygu asesiadau a sesiynau hyfforddi, yn ôl y gofyn (a fydd yn cael eu cynnal ar-lein ar Microsoft Teams).

**Profiad / cymwysterau angenrheidiol**

- profiad addysgu a/neu gymwysterau proffesiynol sy'n berthnasol i'r sector
- gwybodaeth a dealltwriaeth o gymwysterau galwedigaethol
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da, yn enwedig yn eich sector/meysydd pwnc o ddewis
- y gallu i ddefnyddio TGCh yn hyderus
- y gallu i ddysgu sgiliau newydd yn gyflym a'u cymhwyso
- y gallu i weithio i derfynau amser tynn
- y gallu i ysgrifennu'n glir ac yn gryno.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **qualificationdevelopment@wjec.co.uk**. Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw **6 Ionawr 2025**

**Sut i wneud cais**:
Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio** i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk/ a chlicio ar 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Sicrhewch eich bod yn ychwanegu rôl Datblygwr Manylebau ar gyfer **Lefel 3 Sylfaen Celf a Dylunio** ar y tab 'maes pwnc' ac yn llenwi pob maes arall yn y cais. **Mae'n bwysig eich bod yn diweddaru eich Datganiad Cefnogi ar y cais**.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:


| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds<br>rob.reynolds@cbac.co.uk<br>02920 265 050 | neu | Rabina Chowdhury<br>rabina.chowdhury@cbac.co.uk<br>02920 265 019 |